

CASNODYN (fl. 1320-1340), bardd

Enw: Casnodyn
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: David Myrddin Lloyd

Y cyntaf o feirdd Morgannwg y ceir ei waith yn y llawysgrifau. Canai hefyd yng Ngwynedd a Cheredigion. Nid yw'n gwbl sicr pa awdlau y dylid eu priodoli iddo. Ceir ymhlith ei waith yn *Llyfr Coch Hergest* ddarnau a briodolir yn y *The Myvyrian Archaiology of Wales* i *Ruffudd ap Maredudd*, a rhydd y *The Myvyrian Archaiology of Wales* i Gasnodyn yr awdl i leuan abad Aberconwy sydd yn ôl y *Ll. Coch* yn waith *Riserdyn*. Dywed '*Iolo Morganwg*' mai g r o Gilfai oedd Casnodyn, ac ymddengys fel petai *Hywel Ystorym*, g r o'i oes ei hun, yn cyfeirio at yr un peth mewn cerdd ddychan iddo, sef: ' Pryf waeth waeth ei faeth o fythau Cilfai ' (Ll. Coch 1342). Canodd Casnodyn i Wenlliant, gwraig y *Syr Gruffudd Llwyd* a oedd yng ngharchar yn 1322, ac i leuan Llwyd ab leuan ap Gruffudd o Geredigion (g r y priodolir marwnad Angharad ei wraig i *Ddafydd ap Gwilym*). Canodd hefyd i'r Drindod, a'i awdl farwnad i Fadog Fychan o'r Goetref, Llangynwyd, stiward Tir Iarll dan Arglwydd Morgannwg, a g r pwysig tua 1330, yw'r gerdd gyntaf sydd ar gael i unrhyw un o foneddigion y wlad honno. Y mae gan Casnodyn gyfeiriadau eraill yn ei waith at leoedd ym Morgannwg, ac yn ei gân i Wenlliant sonia am ei ' Wenhwyseg.' Geilw ei hun wrth yr enw Gruffudd yn ei awdl i Fadog Fychan. Sonia Casnodyn amdano'i hun yn dysgu 'hawdd hoddiaw gerdd berffaith' gan leuan Llwyd, g r a oedd yn dad ac yn daid i feirdd.

Y mae Casnodyn yn enghraifft o'r ysgol geidwadol yn ei ddydd, yn dirmygu'r 'gler ofer' a 'sothachieith beirdd ceith Caeaw.' Yr oedd yn geidwadol hefyd yn ei agwedd tuag at y byd newydd a oedd yn tyfu o'i gwmpas, a chanmolai uchelwyr 'disaesneg' o'r hen fath. Eto y mae'r gynghanedd yn fwy datblygedig yng ngwaith Casnodyn na chan ei ragflaenwyr, ac fe'i nodweddir gan fynych arfer cynghanedd sain o wead clos, fel yn ei linell fwyaf adnabyddus, sef ' Main riain firain gain Gymraeg.' O'r awdl i'r Drindod y codwyd yr enghraifft o rupunt yn *Cerddwriaeth Cerdd Dafod* (testun y *Ll. Coch*).

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

The Myvyrian archaiology of Wales (Denbigh 1870), 283-9

'*Llyfr Coch Hergest*' (*Jesus College MS. cxi*), 1233-1248

J. Lloyd-Jones, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (1931), ii, 115-6

Ifor Williams, 'Dosbarth Einion Offeiriad,' yn *Y Beiriniad*, v, 1915, 129

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Casnodyn](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5048989](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

